**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwy, sef 'Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin'**

**Ebrill 2012**

---

Hoffwn ddiolch i Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) am y safbwyntiau a'r argymhellion a gyflwynwyd ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC). Mae'r adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol i mi a hoffwn nodi fy mod yn gwerthfawrogi gwaith Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn casglu'r dystiolaeth ac yn cyflwyno'r canfyddiadau.

Yng Nghymru ein polisi yw sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a fydd yn diogelu stociau pysgod a hefyd yn amddiffyn y cymunedau a'r teuluoedd hynny sy'n dibynnu ar bysgota i wneud bywoliaeth. Mae'r mwyafrif o'n pysgodfeydd yn gynaliadwy eu natur gyda mwyafrif y gweithgarwch yn bysgota arfordirol ar raddfa fach a fflyd sy'n gweithredu yn nyfroedd y glannau gan fwyaf. Dyna pam rwy'n credu bod angen ystyried anghenion sector y glannau yn llawn wrth ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac rwy'n falch bod eich canfyddiadau hefyd yn adlewyrchu'r farn hon. Rwy'n credu y gall Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddatblygu polisi cydlynus ar bysgodfeydd a fydd yn cydnabod pwysigrwydd y pysgodfeydd hyn i'n cymunedau arfordirol.

Mae pwysigrwydd pysgodfeydd cynaliadwy yn allweddol i ddiwygio'r PPC ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cydnabod nad yw'r polisi cyfredol wedi bod yn llwyddiannus yn hyn o beth. Wrth ddiwygio'r PPC dylid cydbwyso o ran sicrhau cynaliadwyedd hirdymor rhwng rheoli stociau pysgod yn briodol ac amddiffyn y cymunedau a'r teuluoedd hynny ar arfordir Cymru sy'n dibynnu ar bysgota i ennill bywoliaeth. Rwy'n credu bod hyn yn egwyddor sylfaenol a bydd yn llywio'r ffordd y byddaf yn mynd ati i ddatblygu polisi pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Rwyf o'r farn bod strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru tuag at y diwydiant pysgota wedi annog cynaliadwyedd ac rwyf o'r farn bod rhai o'n pysgodfeydd eisoes yn gynaliadwy'u natur, yn enwedig y fflyd o gychod bach sy'n defnyddio offer pysgota sefydlog o amgylch ein harfordir.

Bydd adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn darparu gwybodaeth bwysig i'm cynorthwyo i fwrw ymlaen â'm safbwyntiau yn y broses o ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin gyda'r Gweinidogion yng ngweinyddiaethau eraill y DU, Cyngor Ewrop a Senedd Ewrop. Hoffwn ddiolch eto i'r Pwyllgor am ei waith caled.

Rwyf wedi amlinellu fy ymateb isod i argymhellion unigol yr adroddiad.

**1. Hawliau Pysgota Hanesyddol**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i’r cyfleoedd ar gyfer deialog newydd gydag Aelod-wladwriaeth sy’n dal hawliau pysgota hanesyddol yn nyfroedd Cymru.

Yn ei thrafodaethau ar y cynigion gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru’n ymchwilio i’r cyfle i gyrraedd cytundebau rhanbarthol i gwtogi ar effaith hawliau hanesyddol yn nyfroedd Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae’r Pwyllgor wedi nodi bod diwygio mynediad hanesyddol gan gychod o’r tu allan i’r DU y tu hwnt i gwmpas y cynigion hyn. Serch hynny, mae angen mynd i’r afael â’r trefniadau ar gyfer y rheolau cyffredinol ar fynediad i ddyfroedd ac adnoddau ar ôl 31 Rhagfyr 2012, yn enwedig ar ddarpariaethau 0-12 milltir forol yn Erthygl 17 y rheoliad cyfredol (Rheoliad y Cyngor 2371/2002). Mae’r Comisiwn wedi rhoi peth sicrwydd ei fod yn ystyried y mater pwysig hwn ac rwy’n croesawu hyn. Byddwn i’n ystyried felly ein bod ni o bosibl mewn cyfnod pontio o ran diwygio ynghylch y broblem amlwg hon yng Nghymru.

Fodd bynnag, byddaf yn ceisio cael trafodaeth ar y mater hwn gyda’r Comisiwn a’r Aelod-wladwriaethau eraill (Gwlad Belg, Ffrainc ac Iwerddon) sydd â mynediad ar hyn o bryd i 6-12 milltir forol mewn amryw rannau o ddyfroedd tiriogaethol Cymru. Efallai y bydd modd i mi ddod i gytundeb er mwyn cyflwyno deddfwriaeth Gymreig a fydd yn rhwymedig ar y gwledydd hynny ac y gellir ei chyfarwyddo at un rhywogaeth neu bysgodfeydd penodol fel treillrwydo trawst. Byddaf hefyd yn gofyn i’m swyddogion edrych ar y posibilrwydd o ymchwilio i’r mater hwn drwy gyrff pysgodfeydd rhanbarthol y mae’r Comisiwn yn ceisio dirprwy mwy o gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau iddyn nhw.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**2. Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol (Erthygl 2.4)**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Rydym yn argymell y dylid newid Erthygl 2.4 i ddarllen fel a ganlyn: “the Common Fisheries Policy shall integrate union environmental legislation requirements; contribute to the achievement of good environmental status of EU waters by 2020 and favourable conservation status under Directive 92/43/EEC and Directive 2009/147/EC”.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rwy'n derbyn y dylai Polisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd geisio integreiddio'i amcanion gyda rheoliadau eraill er mwyn sicrhau ffordd 'gydlynus' o reoli'r amgylchedd morol. Ar hyn o bryd mae geiriad cynnig y Comisiwn yn aneglur ac rwy'n cytuno bod angen eglurder ynghylch union ystyr 'greater integration' gyda rheoliadau amgylcheddol eraill. Mae'n rhaid i'r PPC roi'r gorau i drin pysgodfeydd ar wahân i bolisïau amgylcheddol morol eraill.

Mae cynigion y Comisiwn yn amlwg yn cynnwys rhai darpariaethau cyffredinol cadarnhaol, gan gynnwys ystyriaeth gan y PPC o'r cysylltiadau â materion morol, ac y dylid sicrhau cydlyniant ac integreiddio drwy reoli pysgodfeydd drwy ddull amlflwydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn adlewyrchu rhwymedigaethau'r Aelod-wladwriaethau mewn perthynas â deddfwriaeth amgylcheddol yr UE a'r angen i gysylltu rheoli pysgodfeydd â mesurau eraill. Er gwaethaf yr amcanion eang, lefel uchel, nid oes proses eglur i Aelod-wladwriaethau gynnig mesurau pysgodfeydd i sicrhau bod PPC yn chwarae'i ran o ran cyflawni amcanion amgylcheddol fel Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae Gweinidogion y Gweinyddiaethau eraill a'r DU yn rhannu'r pryder hwn ac wedi cyfrannu awgrymiadau penodol drwy drafodaethau Gweithgor y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r broses wedi cyrraedd y cam nesaf sef trafod y testun cyfreithiol.

Ond byddaf yn ceisio integreiddio gwirioneddol drwy newidiadau i'r PPC i alluogi Cymru i ddatblygu a rhoi mesurau ar waith i reoli ecosystemau morol y tu hwnt i'r terfyn 6 milltir forol mewn ffordd symlach. Mae hyn yn cyd-fynd â fy ymateb uchod ar 'fynediad hanesyddol' lle gallwn i mewn egwyddor wynebu'r sefyllfa lle byddwn i'n rhoi cyfyngiadau ar gychod o'r DU ond heb roi cyfyngiadau ar gychod o'r tu allan i'r DU sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw. Byddaf felly'n cefnogi'n gryf yr alwad am fframwaith penderfynu syml a datganoledig sy'n galluogi'r rheini sydd agosaf at bysgodfa i wneud penderfyniadau ar fesurau rheoli priodol.

O ran cyflawni neu gynnal statws amgylcheddol da ar gyfer stociau pysgod masnachol fel sy'n ofynnol yn ôl Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol 2008/56/EC, rwy'n croesawu amcan gwreiddiol y Comisiwn i gyflawni hyn erbyn 2020. Rwyf hefyd yn cefnogi mewn egwyddor y nod gan weinyddiaethau eraill y DU a'r Aelod-wladwriaethau i weithio tuag at Gynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY) ar gyfer stoc erbyn 2015. Fodd bynnag, mae nifer o heriau i'w hystyried wrth ddelio â physgodfeydd cymysg (h.y. lle mae cychod yn pysgota nifer o wahanol rywogaethau pysgod masnachol sy'n nofio gyda'i gilydd ac yn cael eu dal â'r un offer). Pan fydd gen i syniad gwell o union gynnwys cynigion y Comisiwn, byddaf yn ystyried pa mor briodol yw'ch gwelliant i gynnwys cyfeiriad at statws cadwraeth ffafriol o dan Gyfarwyddeb 92/43/EEC a Chyfarwyddeb 2009/147/EC.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**3. Y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar (Erthygl 12)**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Yn ei thrafodaethau ar y cynigion, dylai Llywodraeth Cymru ddadlau dros welliannau i destun y cynigion fel a ganlyn:

Erthygl 12.1 i'w newid i ddarllen fel a ganlyn "In special areas of conservation within the meaning of Article 6 of Directive 94/43/EEC, of Article 4 of Directive 2009/147/EC and of Article 13 (4) of Directive 2008/56/EC, fishing activities shall be conducted by Member States in such a way as to avoid deterioration of habitats and disturbance of species in such special areas of conservation".

Erthygl 12.2 i'w newid i ddarllen fel a ganlyn "The Commission shall be obliged to adopt delegate acts in accordance with Article 55, to specify fishing related measures to avoid deterioration of habitats and disturbance of species in such special areas of conservation".

**Ymateb: Gwrthod**

Yn anffodus ni allaf gytuno â'r argymhelliad hwn ac rwy'n gwrthod y ddau gynnig gan y Comisiwn.

Nid wyf o'r farn bod amlinellu rhwymedigaethau o dan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar, sef "avoid deterioration of habitats and disturbance of species", yn gasgliad addas yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin o ystyried bod y gofynion hyn ar Aelod-wladwriaethau ymhlyg yng Nghyfarwyddeb 92/43/EEC a Chyfarwyddeb 2009/147/EC. Rwy'n cytuno y dylai PPC newydd gyd-fynd â'r rheoliadau eraill hyn ond nid wyf o'r farn ei fod yn offeryn priodol i'w ddefnyddio ar ben y Cyfarwyddebau Ewropeaidd eraill hyn neu fel estyniad iddyn nhw.

Rwy'n derbyn bod angen rheoli gweithgareddau pysgota penodol os ydyn nhw'n risg i nodwedd neu rywogaeth ddynodedig ar Safle Gwarchodedig Morol Ewropeaidd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r rhesymeg hon i gymryd camau parthed treillio am gregyn bylchog yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Cymru yn unol â Chyfarwyddeb 92/43/EEC a Chyfarwyddeb 2009/147/EC. Dylid nodi bod y ddyletswydd hon ar Weinidogion Cymru o dan reoliad 3(3) Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol &c.) 1994 a Rheoliad 6(1) Rheoliadau Cadwraeth Morol oddi ar yr Arfordir 2007 i arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Felly, rwyf o'r farn bod offer digonol eisoes ar gael i sicrhau bod modd rheoli gweithgareddau pysgota gan gychod y DU yn briodol o dan y fframwaith rheoleiddio presennol yng Nghymru a chyflawni'n rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

**4. Cynlluniau Amlflwydd a'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (Erthygl 2)**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Lle bo hynny'n bosibl, dylid mabwysiadu cynlluniau amlflwydd erbyn 2015 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf o ran stociau pysgod erbyn 2015 a dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau'r gwelliant canlynol i destun y cynigion:

Ychwanegu adran 5 newydd at Erthygl 2 sy'n nodi: *Multiannual plans shall, where possible, be adopted by 2015.*

Yn ychwanegol:
Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i geisio rhagor o eglurder gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch sut a phryd y caiff y cynlluniau hyn eu datblygu.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n cytuno y dylid pwyso am gynlluniau amlflwydd gorfodol ar gyfer stociau masnachol. Mae'r Comisiwn yn awyddus i roi'r gorau i reoli stociau'n flynyddol a datblygu cynlluniau rheoli hirdymor sy'n ceisio cyflawni MSY yn y tymor canolig i'r hirdymor yn hytrach nag adlewyrchu pwysau gwleidyddol blynyddol.

Mae holl weinyddiaethau eraill y DU yn cytuno â'r awydd hwn i reoli stociau yn yr hirdymor, ond mae nifer o bryderon yn bodoli ynghylch elfennau ymarferol unrhyw gynllun hirdymor. Mae rhai cwestiynau o hyd ynghylch cyfrifoldeb dros benderfynu ar flaenoriaethau cynlluniau a datblygu mesurau technegol i gyd-fynd â nhw. Mae gwybodaeth bellach gan y Comisiwn i'r perwyl hwn. Hefyd ceir pwynt pwysig am y diffyg gwybodaeth ar gyfer nifer o stociau a natur gymhleth y pysgodfeydd aml-rywogaeth sydd i'w gweld o amgylch arfordir Cymru a fydd yn gwneud cynllunio'n anodd iawn. Mae gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn allweddol ar gyfer diwygio'r ddeddfwriaeth a hefyd ein rôl drafod yn Ewrop. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gryfhau'r dystiolaeth ynghylch y stociau allweddol a ddaw o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac ystyried unrhyw fylchau mewn meysydd eraill ar frys.

Dylid gwneud hyn erbyn 2017, sy'n cyd-fynd â safbwynt Gweinidogion eraill y DU ac yn fwy realistig.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**5. Trosglwyddo Consesiynau Pysgota (Erthyglau 27-33)**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Dylai'r system consesiynau pysgota trosglwyddadwy fod yn wirfoddol ac y dylai Llywodraeth Cymru geisio mynd ar drywydd hyn fel rhan o'i thrafodaethau ar y Polisi. Dylai Llywodraeth Cymru o leiaf sicrhau mwy o eglurder yn y ddeddfwriaeth o ran y modd y caiff ei chymhwyso i gychod bach ag offer cymysg ac o ran y camau y dylid eu cymryd i ddiogelu ac i gynnal fflyd pysgota amrywiol Ewrop.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n rhannu pryderon y Pwyllgor nad oes digon o fanylder yn y cynigion ar 'drosglwyddo consesiynau pysgota' ar hyn o bryd i gael trafodaeth bwrpasol. Mae nifer o risgiau cysylltiedig a allai, heb fesurau diogelu digonol, arwain at grynhoi hawliau pysgota ymysg nifer fach o fusnesau mawr. Gallai hyn fod yn andwyol i fflyd pysgota'r glannau sy'n bwysig i gymunedau arfordir Cymru.

Mae’r Comisiwn o’r farn bod gormod o gychod yn ceisio pysgota rhy ychydig o bysgod, ond problem cychod masnachol mawr yw hon yn bennaf. Mae tywydd a’r tymhorau yn cyfyngu ar waith cychod llai o faint ac mae’r arfer o un reol i bawb wedi bod yn anfantais gyson i fflyd y glannau. Mae’n bwysig felly bod mesurau ar gyfer ‘hawliau pysgota’ yn ddigon eang i ganiatáu i wledydd mewn Aelod-wladwriaethau ddiogelu pysgodfeydd arfordirol bach. Rwy’n gadarn o’r farn y dylai’r Aelod-wladwriaethau barhau i fod yn gyfrifol am reoli’r adnodd cyhoeddus hwn er mwyn ei ddefnyddio orau.

Rwyf o’r farn mai’r mesur diogelwch gorau fyddai eithrio’r fflyd llai na 10m rhag Trosglwyddo Consesiynau Pysgota. O dan y cynnig presennol, mae modd eithrio cychod llai na 12m ac eithrio’r rheini sy’n pysgota gydag offer llusg. Mae hyn yn codi nifer o gwestiynau fel beth fyddai’n digwydd i’r cychod hynny sy’n defnyddio offer llusg ac offer sefydlog. Yn hyn o beth rwy’n credu y dylid eithrio cychod bach ar sail maint ac nid ar sail dulliau pysgota.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**6. Datganoli Cyfrifoldeb i’r Rhanbarthau**

Mae’r pwyllgor yn argymell:

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i ddatblygu rheolaeth pysgodfeydd ar raddfa ranbarthol lai ac rydym yn argymell eich bod yn parhau i fynd ar drywydd y mater hwn gydag Aelod-wladwriaethau perthnasol eraill. Rydym yn argymell, gan hynny, y dylid sicrhau bod strwythur y Cynghorau Cynghori yn y dyfodol yn rhoi llais i bysgotwyr a chymunedau’r glannau.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n diolch i’r Pwyllgor am gefnogi fy ymrwymiad i reolaeth fwy lleol, yn enwedig ar gyfer pysgodfeydd bach y glannau. Dylai dull mwy rhanbarthol sicrhau gwell reolaeth ar lefel ecosystem ac er mwyn addasu i amgylchiadau lleol. Yn hyn o beth, byddwn yn mynd mor bell â dweud nad yw’n ymddangos bod y cynigion presennol yn mynd yn ddigon pell. Yn hytrach, ymddengys bod y Comisiwn yn ceisio hyrwyddo cynlluniau rheoli hirdymor ar gyfer rhywogaethau fel ffordd o ddatganoli cyfrifoldeb i’r rhanbarthau. Oni bai bod y model hwn yn cael ei rannu i lefel wirioneddol ranbarthol, bydd yn her o hyd i’r Aelod-wladwriaethau gytuno ar gynlluniau o’r fath. Byddai hyn yn arwain at fodel lle mai’r Comisiwn fyddai’n penderfynu’n derfynol ar gyfleoedd pysgota o hyd. Ni fyddai hyn yn cyflawni’r nod o ddatganoli’r broses o wneud penderfyniadau, ac i bob pwrpas prin y mae’n newid y sefyllfa bresennol.

Mae’n rhaid i ddull rhanbarthol ymateb i arbenigedd yr Aelod-wladwriaethau perthnasol a’r rhanddeiliaid. Gyda dull o’r fath, byddai cydreolaeth yn cynnwys y rhanddeiliaid hynny o’r pysgodfeydd, gan ystyried arbenigedd lleol i ddatblygu atebion ymarferol. Rwyf hefyd yn gweld cryn rinwedd mewn datblygu trefniadau cydweithio newydd gyda gweinyddiaethau cyfagos ar gyfer dyfroedd Môr Iwerddon a Pharth

Pysgodfeydd Cymru. Mae gennym ni lawer yn gyffredin gyda'n cymdogion, yn enwedig o ran y pwysau ar stociau pysgod masnachol. Mae materion pwysig na ellir mynd i'r afael â nhw yng Nghymru yn unig a byddaf yn ceisio trefnu trafodaethau mwy ffurfiol ar hyn yn yr haf.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

## 7. Pysgod a Gaiff eu Taflu yn Ôl

Mae'r pwyllgor yn argymell y dylid newid Erthygl 15 fel a ganlyn:

All catches of the following fish stocks subject to catch limits caught during fishing activities in Union waters or by Union fishing vessels outside Union waters shall be brought and retained on board fishing vessels and recorded and landed except where used as live bait or where unwanted catch can be returned alive.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n credu bod modd dweud bod pawb am weld diwedd ar daflu pysgod yn ôl. Creu'r broblem hon yw un o fethiannau amlwg y PPC presennol ac mae'n un o'r prif resymau dros newid. Rwy'n llwyr gefnogi nod y Comisiwn i ddileu'r arfer cwbl annerbyniol hwn. Fodd bynnag, rwy'n amheuol am amserlen y Comisiwn ac mae'n amlwg na fydd modd gweithredu gwaharddiad cyffredinol syml yn y tymor byr. Y broblem fwyaf amlwg yw diffyg cyfraniad gan randdeiliaid i ddatrys y broblem. Dylid cyflwyno'r gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl yn raddol i ganiatáu ymchwil a pharatoi pellach. Mae'r prif broblemau yng Nghymru yn codi yn sgil gwaith ein cychod mewn pysgodfeydd cymysg, yn enwedig ar gyfer lledod coch, lledod Mair, cythreuliaid môr, hadogiaid, gwyniaid môr a chimychiaid Norwy.

Mae'n rhaid mabwysiadu ffordd synhwyrol o weithio, gan ddatblygu fframwaith rheoleiddio hyblyg i fwrw ymlaen â'r newidiadau angenrheidiol mewn gweithgarwch ac ymddygiad pysgota. Mae hyn yn golygu gweithio gyda physgotwyr i gyflwyno ystod o fesurau wedi'u teilwra i leihau faint o bysgod a gaiff eu taflu yn ôl sy'n wirioneddol effeithiol ac y gellir eu gorfodi. Mae'n rhaid rhoi cefnogaeth bellach i wella'r dewis o offer pysgota. Rwy'n cydnabod y ffaith bod angen rhoi cymhelliant i bysgotwyr bysgota'n gyfrifol ac y dylid gwobrwyo ymddygiad priodol. Gellir gwneud hyn drwy roi cwota ychwanegol neu ddyddiau ychwanegol ar y môr i gychod.

Mae angen rhagor o fanylion gan y Comisiwn ynghylch sut bydd y rhwymedigaeth hon yn gweithio'n ymarferol. Ymddengys bod y ffordd rydyn ni wedi mynd ati yn draddodiadol i osod isafsymiau glanio pysgod ar fin newid. Mae perygl y bydd hyn yn gofyn am ail-lunio deddfwriaeth genedlaethol a deddfwriaeth Cymru yn helaeth.

**Goblygiadau Ariannol:**

Mae'n aneglur ar hyn o bryd pa adnoddau fydd eu hangen i orfodi'r gofyniad i lanio pysgod o dan y "maint cyfeirnod cadwraeth lleiaf". Mae'n debygol y bydd angen adnoddau ychwanegol i ategu ymhellach y gyllideb Gwyddoniaeth Pysgodfeydd.

**8. Casglu Data (Erthygl 37 a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF))**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Gan hynny, rydym yn croesawu'n frwd y cynigion yn Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i alluogi Aelod-wladwriaethau i gefnogi'r mathau hyn o brosiectau ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio unrhyw gronfeydd a ddarperir iddi yn y dyfodol o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i gefnogi'r math hwn o waith yng Nghymru. Byddem yn argymell eich bod yn ailadrodd yr arfer da ym mhrosiect Fish Map Môn ar draws Cymru.

Yn ogystal, diwygio'r cynigion fel a ganlyn:

Member States shall ensure the national coordination of the collection and management of scientific data for fisheries management and shall produce multiannual plans for data collection. To this end they shall designate a national correspondent and organise an annual national coordination meeting. The Commission shall be informed of the national coordination activities and of the production of multi annual plans and be invited to the coordination of meetings.

**Ymateb: Derbyn**

Mae dyraniad cyllideb EMFF ar gyfer rhaglenni 2014-2020 wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n cynnig cymorth i'r llywodraeth sicrhau bod pysgodfeydd yn gynaliadwy. Fel rwyf eisoes wedi'i nodi, mae gwyddoniaeth a thystiolaeth gadarn yn allweddol i gyflawni'r syniad hwn. Byddaf yn sicr yn sicrhau y bydd hyn yn ceisio sicrhau manteision i'r ecosystem gyfan yn hytrach na gweithio er cadwraeth un rywogaeth yn unig. Byddaf yn disgwyl felly i EMFF gynnig pecyn cyllid cytbwys sy'n cynnwys yr wyddoniaeth sylfaenol ac yn llenwi'r bylchau gwybodaeth sy'n bodoli yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn cefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud ynghylch Aelod-wladwriaethau'n sicrhau y caiff data gwyddonol ar gyfer rheoli pysgodfeydd ei gasglu a'i reoli, ac yn llunio cynlluniau cydlynus ar gyfer casglu data. Fodd bynnag, rwyf yn ansicr ynghylch sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Bydd angen i mi ymchwilio i'r amryw opsiynau.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**9. Dyframaeth**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Yng ngoleuni'r farn a fynegwyd i'r Grŵp gan y diwydiant, gofynnwn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei safbwynt gyda'r elfen hon o'r cynigion.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Rwy'n cytuno bod rôl i Lywodraeth Cymru o ran cefnogi'r sector dyframaeth ond rwy'n amheuol o hyd y dylai hyn ddigwydd yn sgil rheoleiddio cynyddol neu fesurau ymyrryd o dan PPC newydd. Hefyd ni allaf weld sut gall cyfarwyddyd canolog gan yr UE ychwanegu gwerth i waith rheoli. Roedd dirprwyo pwerau o'r fath i'r Comisiwn a'r amrywiaeth o ofynion rheoleiddio wrth wraidd llawer o'r problemau i'r fflyd a'r diwydiant pysgod môr. Nid ydym am weld diwylliant o 'fesurau cymorth' rheoleiddio tebyg yn cael ei ailadrodd ym maes dyframaeth. Rwy'n credu o hyd felly y dylai dyframaeth barhau i fod yng nghylch gorchwyl y cymhwysedd cenedlaethol.

Fodd bynnag, rwy'n cefnogi barn y Pwyllgor y dylid datblygu strategaeth dyframaeth Cymru. Rydyn ni wedi cael llwyddiant mawr yng Nghymru ym maes dyframaeth a dyma sydd wrth wraidd ein strategaeth hirdymor. Ond dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r rôl yn y dyfodol o hyrwyddo gwerth cynnyrch drwy reolau olrhain, labelu a safonau yn hytrach na mesurau i gefnogi'r farchnad. Rwy'n teimlo bod gan EMFF rôl ganolog yn hyn, yn enwedig o ran cefnogi datblygiadau dyframaeth yng Nghymru.

Mae nifer o fesurau a Chyfarwyddebau amgylcheddol eisoes ynghlwm â dyframaeth ac rwy'n aneglur o hyd ynghylch beth fyddai'r manteision i gynhyrchwyr yng Nghymru yn sgil rheolaeth a rheoleiddio ychwanegol gan y Comisiwn.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**10. Cynigion ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop**

Mae'r pwyllgor yn argymell:

Gobeithio y bydd y pedair elfen cymorth uwch, sef cymorth busnes a marchnata ar gyfer fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan, dechrau busnesau newydd ar hyd y glannau a chyrff i gynrychioli fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan i roi llais iddynt mewn trafodaethau'n ymwneud â'r PPC yn parhau'n rhan o'r EMFF a byddwn yn sicr yn eich annog i'w cefnogi yn y broses drafod.

**Ymateb: Derbyn**

Gallai'r EMFF newydd gynnig llawer o'r manteision y mae'r Pwyllgor yn eu cydnabod yn ei ganfyddiadau ac rwy'n falch bod dymuniadau rhanddeiliaid Cymru yn cyd-fynd â rhai'r Llywodraeth. Gyda'n bod yn rhannu'r targedau hyn, rwy'n sicr y gallwn ni ddatblygu pecyn o fesurau a fydd yn cynnig manteision gwirioneddol i gymunedau'r glannau a'r pysgotwyr sy'n chwarae'r fath rôl bwysig ynddyn nhw.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni cyfredol.